**Y Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru**

# Y Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol 2021 / 2022

**Ymgynghoriad i Geisio Barn ar y Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol 2021 sy'n cynnwys newidiadau ar Strwythurau Cyflog, Cyfraddau a Lwfansau Isafswm Cyflog ac Amodau Cyflogaeth eraill**

**Agor: 26 Hydref 2020**

**Cau: 20 Tachwedd 2020**

**Cefndir:**

Mae'r Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru yn gorff annibynnol sy'n cynghori Gweinidogion Cymru ar drefniadau'r Isafswm Cyflog Amaethyddol ar gyfer gweithwyr amaethyddol, garddwriaethol a choedwigaeth yng Nghymru. Mae hefyd yn hyrwyddo gyrfaoedd mewn amaethyddiaeth, garddwriaeth a choedwigaeth, datblygu gweithlu â sgiliau priodol ac yn rhoi cyngor ychwanegol i Weinidogion yn ôl y gofyn.

Bob blwyddyn, mae'r Panel yn adolygu'r trefniadau Isafswm Cyflog Amaethyddol (AMW), yn cynnig unrhyw newidiadau angenrheidiol ac yn ymgynghori ar eu cynigion cyn eu cyflwyno mewn Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (AWO) drafft i Weinidogion Cymru i'w hystyried. Ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan y Senedd, mae gan y Gorchymyn awdurdod cyfreithiol yng Nghymru.

Wrth wneud eu penderfyniadau, mae'r Panel yn defnyddio eu harbenigedd ac yn ystyried yr amodau economaidd yn y diwydiant ar y pryd, yn ogystal ag unrhyw ofynion cyfreithiol (fel yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol). Mae hyn yn sicrhau bod gweithwyr amaethyddol yn cael cyflog, lwfansau a thelerau cyflogaeth teg a adolygir yn rheolaidd, gan gyfrannu ymhellach at agenda trechu tlodi Llywodraeth Cymru drwy ddiogelu incwm aelwydydd, yn enwedig mewn cymunedau gwledig.

Mae'r Panel yn cynnwys cynrychiolwyr o Undeb Amaethwyr Cymru, Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru, Undeb Unite a thri aelod annibynnol.

Mae is-adran nawdd Llywodraeth Cymru yn darparu swyddogaeth ysgrifenyddol y Panel, ac mae cwmni cyfreithiol allanol yn cynghori'r Panel ar unrhyw faterion cyfreithiol sy'n codi a chydymffurfiaeth gyfreithiol yn gyffredinol. Maent yn paratoi'r Gorchmynion Cyflogau drafft sy'n gweithredu penderfyniadau'r Panel hefyd.

Mae'r ddogfen hon yn gofyn am eich barn ar newidiadau arfaethedig y Panel i'r trefniadau Isafswm Cyflog Amaethyddol presennol a fydd yn gymwys o fis Ebrill 2021 ymlaen. Gwnaed y cynigion yng nghyfarfod y Panel ar 22 Medi 2020 ac fe'u rhestrir isod.

## 1. Strwythur Graddio Newydd

Mae'r Panel wedi bod yn gweithio tuag at foderneiddio a symleiddio'r trefniadau Isafswm Cyflog Amaethyddol er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn addas i'r diben i gyflogwyr a gweithwyr amaethyddol fel ei gilydd. I'r perwyl hwn, mae'r Panel yn cynnig strwythur graddio newydd (Atodiad A) o fis Ebrill 2021 ymlaen. Bydd y strwythur graddio newydd yn ei gwneud hi'n haws diffinio gradd briodol ar gyfer gweithiwr amaethyddol ac yn cynnig mwy o gyfleoedd a photensial i weithwyr ddatblygu o fewn y sector amaethyddol yng Nghymru.

Mae'r Panel yn cynnig dileu'r dyfarniadau a'r tystysgrifau cymhwysedd sy'n ofynnol mewn perthynas â'r Graddau 1, 2 a 3 presennol hefyd (fel y nodir yn Atodlenni 1, 2 a 3 o'r gorchymyn presennol sef Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol 2020). Gwelir bod yr amserlen gymwysterau gyfredol wedi dyddio ac mae’r strwythur newydd yn disodli’r cymwysterau presennol â lefelau sgiliau sy’n seiliedig ar NVQ ochr yn ochr â phrofiad gweithwyr fel llwybrau amgen drwy’r strwythur gradd.

**Diogelu**

At hynny, mae'r Panel yn cynnig y dylid cynnwys darpariaeth yng Ngorchymyn 2021 a fydd yn dweud y dylid rhewi cyflog unrhyw weithiwr amaethyddol y byddai ei isafswm cyfradd cyflog yn lleihau o ganlyniad i gael ei gymathu i radd is neu isafswm cyfradd cyflog is o dan y strwythur graddio newydd arfaethedig ar ei gyfradd gyflog bresennol hyd nes y bydd yr isafswm cyfradd cyflog sy'n gymwys ar gyfer ei radd o dan y strwythur graddio newydd yn cyrraedd ei gyfradd gyflog bresennol neu gynyddu'n uwch na'r gyfradd honno.

**Cwestiynau:**

1. **Ydych chi'n cytuno bod angen moderneiddio'r strwythur graddio presennol?**

2. **Ydych chi'n cytuno â'r strwythur graddio newydd a gynigir gan y Panel? (Mae diffiniad llawn o bob gradd yn Atodiad A)**

3. **Os nad ydych chi'n cytuno, a oes gennych unrhyw gynigion eraill y gallai'r Panel eu hystyried?**

4. **Bydd dileu Atodlenni 1, 2 a 3 o Orchymyn Cyflogau Amaethyddol presennol 2020 yn cael gwred ar y cymwysterau a'r hyfforddiant gorfodol penodol sydd eu hangen i symud ymlaen i bob gradd newydd gan gyflwyno yn eu lle gymwysterau galwedigaethol mwy cyffredinol. Ydych chi'n credu y bydd hyn yn caniatáu mwy o hyblygrwydd i symud ymlaen o fewn y strwythur graddio newydd?**

5. **Ydych chi'n cytuno â mesurau diogelu arfaethedig y Panel i atal gweithwyr rhag bod o dan anfantais yn sgil newid y strwythur graddio?**

## 2. Isafswm Cyfraddau Cyflog

Ystyriodd y Panel y cyfraddau cyflog isaf a ddylai fod yn berthnasol i bob un o'r graddau newydd arfaethedig o fis Ebrill 2021 ymlaen. Cyrhaeddwyd y cyfraddau arfaethedig ar gyfer yr isafswm cyflog drwy negodi ac ystyried arferion cyflogaeth ac amodau economaidd yn y sector ar y pryd, gan gynnwys effaith pandemig COVID-19, Ymadael â'r UE a diwedd y Polisi Amaethyddol Cyffredin.

Nodir y cyfraddau isaf arfaethedig ar gyfer y graddau newydd arfaethedig isod. Gan eu bod yn gysylltiedig â chyfraddau a bandiau oedran yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol/Cyflog Byw Cenedlaethol a bennir gan Lywodraeth y DU, mae'n bosibl y byddant yn newid.

Disgwylir cyhoeddiad ar y newidiadau i'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol/Cyflog Byw Cenedlaethol ym mis Tachwedd 2020 a gallai'r newidiadau hyn gynnwys lleihau'r oedran y mae'r Cyflog Byw Cenedlaethol yn daladwy o 25 oed (fel y mae ar hyn o bryd) i 23 oed a gallai newid o'r fath effeithio ar y bandiau oedran eraill. Bydd unrhyw newidiadau a gadarnhawyd i'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol/Cyflog Byw

Cenedlaethol yn dod i rym ar 1 Ebrill 2020. Bydd cyfraddau arfaethedig 2021 ar gyfer yr isafswm cyflog a'r bandiau oedran perthnasol a nodir isod yn cael eu diwygio i adlewyrchu unrhyw newidiadau o'r fath.

| **Categori Gweithiwr** | **Cyfraddau Arfaethedig yr Isafswm Cyflog 2021** |
|---|---|
| A1 – Gweithiwr Datblygu Amaethyddol (16-18 oed) | Isafswm Cyflog Cenedlaethol (£4.55 ar hyn o bryd) |
| A2 – Gweithiwr Datblygu Amaethyddol (18-20 oed) | Isafswm Cyflog Cenedlaethol (£6.45 ar hyn o bryd) |
| A3 – Gweithiwr Datblygu Amaethyddol (21-24 oed) | Isafswm Cyflog Cenedlaethol (£8.20 ar hyn o bryd) |
| A4 – Gweithiwr Datblygu Amaethyddol (25 oed+) | Cyflog Byw Cenedlaethol (£8.72 ar hyn o bryd) |
| B1 – Gweithiwr Amaethyddol (16-18 oed) | Isafswm Cyflog Cenedlaethol (£4.55 ar hyn o bryd) |
| B2 – Gweithiwr Amaethyddol (18-20 oed) | Isafswm Cyflog Cenedlaethol (£6.45 ar hyn o bryd) |
| B3 – Gweithiwr Amaethyddol (21-24 oed) | Isafswm Cyflog Cenedlaethol (£8.20 ar hyn o bryd) |
| B4 – Gweithiwr Amaethyddol (25 oed+) | Cyfradd Cyflog Byw Cenedlaethol +3.1% |
| C – Gweithiwr Amaethyddol Uwch | Gradd B +3% |
| D – Uwch-weithiwr Amaethyddol | Gradd C +9.72% |
| E – Rheolwr Amaethyddol | Gradd D +9.74% |

**Caiff cyfraddau isafswm cyflog prentisiaid eu cynyddu fel a ganlyn:**

| | |
|---|---|
| Prentis Blwyddyn 1 | Cyfradd yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol ar gyfer Prentisiaid (£4.15 ar hyn o bryd) |
| Prentis Blwyddyn 2 (o dan 19 oed) | Cyfradd yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol ar gyfer Prentisiaid (£4.55 ar hyn o bryd) |
| Prentis Blwyddyn 2 (19 oed a throsodd) | Yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol perthnasol (yn dibynnu ar oedran) |

**3. Lwfansau Arfaethedig Eraill:**

| | **Presennol** | **Arfaethedig** | |
|---|---|---|---|
| Lwfans Cŵn | £8.17 | £8.53 | Fesul Ci fesul Wythnos |
| Lwfans Gweithio gyda'r Nos | £1.55 | £1.62 | Fesul Awr o Waith gyda'r Nos |
| Lwfans Geni / Mabwysiadu | £64.29 | £67.09 | Fesul Plentyn |

Mae'r tri lwfans wedi cynyddu 2.5% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

**Cwestiwn:**

6. **A ydych yn cytuno â'r cyfraddau a'r lwfansau arfaethedig ar gyfer yr isafswm cyflog?**

**3. Diwygiadau arfaethedig eraill i ddarpariaethau Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2021**

Mae'r Panel yn cynnig y diwygiadau canlynol i eiriad yr adrannau presennol yng Ngorchymyn 2020 i'w cynnwys yng Ngorchymyn 2021.

Absenoldeb Rhiant oherwydd Profedigaeth

Mae Deddf Profedigaeth Rhiant (Absenoldeb a Thâl) 2018 a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2020, Rheoliadau Absenoldeb Profedigaeth Rhiant 2020 a Rheoliadau Tâl Profedigaeth Statudol Rhiant (Cyffredinol) 2020 yn creu hawl statudol i gyfnod o bythefnos i ffwrdd o'r gwaith i rieni cyflogedig, gyda thâl profedigaeth statudol rhiant yn daladwy (ar yr amod bod meini prawf cymhwyso penodol yn cael eu bodloni), ar ôl colli plentyn o dan 18 oed (gan gynnwys marw-enedigaeth ar ôl 24 wythnos).

Mae'r Panel o'r farn bod angen sicrhau bod yr hawl gyfreithiol hon yn cael ei hadlewyrchu yn narpariaethau Absenoldeb Profedigaeth Gorchymyn 2021. Felly

mae'r panel yn cynnig y geiriad diwygiedig sy'n dilyn i erthyglau 39, 40 a 41 o Orchymyn 2020 (mae'r diwygiadau mewn print trwm).

**Absenoldeb oherwydd Profedigaeth**

*39(1) Mae gan weithiwr amaethyddol hawl i gael absenoldeb oherwydd profedigaeth* ***a thâl profedigaeth amaethyddol yn unol ag erthygl 41 o dan amgylchiadau pan fo'r brofedigaeth yn ymwneud â pherson yng Nghategori A, Categori B neu Gategori C.***

***(2) At ddibenion paragraff (1), personau yng Nghategori A yw:***

***(a) plentyn.***

*(3) At ddibenion paragraff (1), personau yng Nghategori B yw*

*(a) rhiant y gweithiwr amaethyddol;*

*(b) priod neu bartner sifil y gweithiwr amaethyddol; neu*

*(c) rhywun y mae'r gweithiwr amaethyddol yn byw gydag ef fel gŵr a gwraig (heb fod yn gyfreithiol briod) neu rywun y mae'r gweithiwr amaethyddol yn byw gydag ef fel pe baent mewn partneriaeth sifil.*

*(3) At ddibenion paragraff (1), personau yng Nghategori C yw—*

*(a) brawd neu chwaer y gweithiwr amaethyddol;*

*(b) nain neu daid y gweithiwr amaethyddol; neu*

*(c) ŵyr neu wyres y gweithiwr amaethyddol.*

*(4) At ddibenion paragraff (1), mae absenoldeb oherwydd profedigaeth yn ychwanegol at unrhyw hawliau eraill i gael absenoldeb o dan y Gorchymyn hwn.*

**Pennu swm absenoldeb oherwydd profedigaeth**

*40.—(1)* ***Swm yr absenoldeb oherwydd profedigaeth y mae gan weithiwr amaethyddol hawl i'w gael yn sgil marwolaeth person yng Nghategori A yw 2 wythnos.***

*(2) Swm yr absenoldeb oherwydd profedigaeth y mae gan weithiwr amaethyddol hawl i'w gael yn sgil marwolaeth person yng Nghategori B yw*:

*(a) 4 diwrnod pan fo'r gweithiwr amaethyddol yn gweithio ei oriau sylfaenol ar 5 diwrnod neu fwy bob wythnos i'r un cyflogwr; neu*

*(b) pan fo'r gweithiwr amaethyddol yn gweithio ei oriau sylfaenol ar 4 diwrnod yr wythnos neu lai i'r un cyflogwr, nifer y diwrnodau a gyfrifir yn unol â pharagraff (3).*

*(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (7), mae swm hawl gweithiwr amaethyddol i gael absenoldeb oherwydd profedigaeth yn sgil marwolaeth person yng Nghategori B i'w gyfrifo yn ôl y fformiwla a ganlyn—*

*DWEW* x 4

*5*

*(4) Swm yr absenoldeb oherwydd profedigaeth y mae gan weithiwr amaethyddol hawl i'w gael yn sgil marwolaeth person yng Nghategori C yw—*

*(a) 2 ddiwrnod pan fo'r gweithiwr amaethyddol yn gweithio ei oriau sylfaenol ar 5 diwrnod neu fwy bob wythnos i'r un cyflogwr; neu*

*(b) pan fo'r gweithiwr amaethyddol yn gweithio ei oriau sylfaenol ar 4 diwrnod yr wythnos neu lai i'r un cyflogwr, nifer y diwrnodau a gyfrifir yn unol â pharagraff (5).*

*(5) Yn ddarostyngedig i baragraff (7), pan fo'r erthygl hon yn gymwys mae swm hawl gweithiwr amaethyddol i gael absenoldeb oherwydd profedigaeth yn sgil marwolaeth person yng Nghategori C i'w gyfrifo yn ôl y fformiwla a ganlyn—*

*DWEW* x 2

*5*

*(6) At ddibenion y fformiwla ym mharagraffau (3) a (5), DWEW yw nifer y diwrnodau a weithiwyd bob wythnos gan y gweithiwr amaethyddol wedi ei gyfrifo yn unol ag erthygl 30 neu 31 (fel y bo'n briodol).*

*(7) Pan fo'r cyfrifiad ym mharagraff (3) neu (5) yn arwain at hawl i gael absenoldeb oherwydd profedigaeth o lai nag 1 diwrnod, mae'r hawl i'w thalgrynnu i fyny i un diwrnod cyfan.*

*(8) O dan amgylchiadau pan fo mwy nag un gyflogaeth gan weithiwr amaethyddol (boed gyda'r un cyflogwr neu gyda chyflogwyr gwahanol), caniateir cymryd absenoldeb oherwydd profedigaeth â thâl mewn cysylltiad â mwy nag un gyflogaeth ond ni chaiff, mewn cysylltiad ag unrhyw un brofedigaeth, fod yn fwy nag uchafswm yr absenoldeb oherwydd profedigaeth a bennir ar gyfer un gyflogaeth yn yr erthygl hon.*

**Tâl Absenoldeb oherwydd Profedigaeth Amaethyddol**

*41(1) Mae swm y tâl mewn cysylltiad ag absenoldeb oherwydd profedigaeth y mae gan weithiwr amaethyddol hawl iddo yn sgil marwolaeth person yng Nghategori A* ***am y 4 diwrnod cyntaf, neu lle bo'r gweithiwr amaethyddol yn gweithio ei oriau sylfaenol ar 4 diwrnod yr wythnos neu lai, nifer y diwrnodau a gyfrifir yn unol ag erthygl 40(3), i'w bennu yn unol â'r darpariaethau yn erthygl 34 fel pe bai diwrnod cyntaf absenoldeb y gweithiwr amaethyddol oherwydd profedigaeth yn ddiwrnod cyntaf gwyliau blynyddol y gweithiwr hwnnw. Am weddill y cyfnod o absenoldeb profedigaeth bydd gan y gweithiwr amaethyddol hawl i gael***

***swm sy'n cyfateb i dâl absenoldeb profedigaeth rhiant statudol sy'n gymwys o bryd i'w gilydd.***

***41(2) Bydd unrhyw dâl absenoldeb oherwydd profedigaeth amaethyddol a delir i'r gweithiwr amaethyddol yn unol ag erthygl 41(1) yn cynnwys unrhyw dâl***

***profedigaeth rhiant statudol y gall fod gan y gweithiwr amaethyddol hawl iddo ar gyfer yr un cyfnod.***

*41(3) Mae swm y tâl mewn cysylltiad ag absenoldeb oherwydd profedigaeth y mae gan weithiwr amaethyddol hawl iddo yn sgil marwolaeth person yng Nghategori B neu C i'w bennu yn unol â'r darpariaethau yn erthygl 34 fel pe bai diwrnod cyntaf absenoldeb y gweithiwr amaethyddol oherwydd profedigaeth yn ddiwrnod cyntaf gwyliau blynyddol y gweithiwr hwnnw.*

**Nid yw'r Panel yn ceisio barn ar y maes hwn gan fod y newidiadau arfaethedig yn adlewyrchu'r hawl statudol bresennol i gyflogeion.**

## 4. Darpariaethau lwfans ar alwad

Cynigir y diwygiadau canlynol i ddarpariaethau ar alwad Gorchymyn 2020 er mwyn darparu eglurder ynghylch y darpariaethau sy'n bodoli eisoes:

*Erthygl 2 Ystyr ar alwad yw trefniant ffurfiol rhwng y gweithiwr amaethyddol a'i gyflogwr pan fo gweithiwr amaethyddol nad yw yn y gwaith yn cytuno â'i gyflogwr y bydd modd cysylltu ag ef drwy gyfrwng y cytunir arno ac y gall gyrraedd y fan lle y gall fod yn ofynnol iddo weithio o fewn amser y cytunir arno.* ***Ni all cyfnod trefniant ar alwad fod yn fwy na 24 awr.***

*Erthygl 16(b) lwfans ar alwad o swm sy'n cyfateb i* ***dair gwaith y gyfradd fesul awr a delir i'r gweithiwr amaethyddol yn ôl ei radd. Mae'r lwfans ar alwad yn daladwy mewn perthynas â phob cyfnod y mae'r gweithiwr amaethyddol ar alwad.***

Mae'r Panel hefyd yn bwriadu diweddaru'r canllaw 'Cyflogau Amaethyddol yng Nghymru' sy'n ategu Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) mewn perthynas â darpariaethau'r lwfans ar alwad er mwyn darparu mwy o eglurder.

**Nid yw'r Panel yn ceisio barn ar y maes hwn gan fod y newidiadau arfaethedig yn adlewyrchu'r hawl statudol bresennol i gyflogeion.**

## 5. Lwfans gwrthbwyso llety

Yn dilyn sylwadau a wnaed gan y **Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (LJCC)**, cytunodd y Panel i ddiwygio'r darpariaethau mewn perthynas â Lwfans Gwrthbwyso Llety er mwyn darparu eglurder ynghylch amlder didyniadau a sut y dylid eu cymhwyso fel a ganlyn:

*Erthygl 15*

*15(1) Pan fo cyflogwr, mewn unrhyw wythnos, yn darparu tŷ i weithiwr amaethyddol am y cyfan o'r wythnos honno, caiff y cyflogwr dynnu'r swm o £1.50 yr wythnos, o isafswm cyflog y gweithiwr amaethyddol sy'n daladwy o dan erthygl 12 o'r Gorchymyn hwn ar gyfer yr wythnos honno.*

***15(2) ystyr tŷ yn erthygl 15(1) yw tŷ annedd cyfan neu lety hunangynhwysol (gan gynnwys unrhyw ardd o fewn cwrtil y tŷ annedd neu'r llety hunangynhwysol hwnnw) y mae'n ofynnol i'r gweithiwr amaethyddol fyw ynddo yn rhinwedd contract gwasanaeth y gweithiwr amaethyddol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau mewn modd priodol neu well.***

***15(3) Yn ddarostyngedig i baragraffau (5) a (6), pan fo cyflogwr yn darparu llety arall i weithiwr amaethyddol, caiff y cyflogwr dynnu'r swm o £4.82 fesul diwrnod o isafswm cyflog y gweithiwr amaethyddol sy'n daladwy o dan erthygl 12 o'r Gorchymyn hwn, am bob diwrnod yn yr wythnos y darperir y llety arall i'r gweithiwr.***

***15(4) ystyr llety arall yn erthygl 15(3) yw unrhyw lety byw heblaw tŷ-***

***(a) sy'n addas i bobl fyw ynddo;***

***(b) sy'n ddiogel ac yn ddiddos;***

***(c) sy'n darparu gwely i'w ddefnyddio gan bob gweithiwr amaethyddol unigol yn unig; a***

***(d) sy'n darparu dŵr yfed glân, cyfleusterau glanweithdra addas a digonol a chyfleusterau ymolchi i weithwyr amaethyddol yn unol â rheoliadau 20 i 22 o Reoliadau Gweithleoedd (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992 fel pe bai'r llety'n weithle yr oedd rheoliadau 20 i 22 o'r Rheoliadau hynny'n gymwys iddo.***

***15(5) Dim ond pan fo'r gweithiwr amaethyddol wedi gweithio o leiaf 15 awr yn ystod yr wythnos honno y caniateir i'r didyniad ym mharagraff (3) gael ei wneud.***

***15(6) Rhaid i unrhyw amser yn ystod yr wythnos honno pan fo'r gweithiwr amaethyddol ar wyliau blynyddol neu absenoldeb oherwydd profedigaeth gyfrif tuag at y 15 awr hynny.***

**Cwestiwn:**

7. **Mae'r Lwfans Gwrthbwyso Llety wedi'i diweddaru i egluro'r darpariaethau yn y gorchymyn. Beth yw eich barn am y Lwfans Gwrthbwyso Llety ac a ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig?**

**Gweithwyr Amaethyddol dan Hyfforddiant**

Mae'r Panel yn bwriadu cynnwys canllawiau yn y Cyflogau Amaethyddol yng Nghymru sy'n ategu Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) ar yr hyn yr ystyria'r Panel yn lefel cyflog briodol i Weithwyr Amaethyddol dan Hyfforddiant.

Mae Gweithiwr Amaethyddol dan Hyfforddiant yn fyfyriwr sy'n ymgymryd â chwrs addysg uwch neu gwrs addysg bellach mewn amaethyddiaeth ac y mae'n ofynnol iddo ymgymryd â chyfnod o brofiad gwaith o hyd at flwyddyn fel rhan o'r cwrs hwnnw.

Mae'r Panel o'r farn y dylid talu cyfradd o 60% o'r isafswm cyfradd cyflog ar gyfer eu gradd berthnasol i Weithwyr Amaethyddol dan Hyfforddiant.

Dyma'r gyfradd gyflog a argymhellir gan y Panel ar gyfer Gweithwyr Amaethyddol dan Hyfforddiant. Dim ond arweiniad ydyw ac ni fydd yn rhan o Orchymyn 2021.

**Cwestiwn:**

8. **Ydych chi'n cytuno â'r diffiniad o Weithiwr Amaethyddol dan Hyfforddiant a'r gyfradd gyflog arfaethedig a *argymhellir* ar gyfer Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol 2021?**

## Amdanoch chi

9. **Rhowch wybodaeth amdanoch chi neu eich sefydliad. Os oes modd, dylech gynnwys manylion am yr alwedigaeth neu'r sector yr ydych yn ymwneud ag ef, eich gweithlu os ydych yn gyflogwr (gan gynnwys nifer y gweithwyr Isafswm Cyflog Amaethyddol, eu graddau a'u cyfraddau), ac unrhyw beth arall sy'n berthnasol yn eich barn chi.**

**Ymatebion**

Dylid cyflwyno sylwadau ar y cynigion hyn erbyn **20 Tachwedd** er mwyn i'r Panel allu cyflwyno  cyngor i'r Gweinidogion fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014.

Bydd unrhyw ymateb a gyflwynwch yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â materion sy'n ymwneud â'r Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth. Bydd ymatebion yn cael eu rhannu â'r Panel hefyd, a lle mae Llywodraeth Cymru neu'r Panel yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yna gall y gwaith hwn gael ei wneud gan gontractwyr trydydd parti (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Gellir cyhoeddi ymatebion yn llawn i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os ydych am aros yn ddienw, nodwch eich dewis pan fyddwch yn anfon eich ymateb. Byddwn yn dileu eich manylion cyn cyhoeddi.

Dylech fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth hefyd.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd unrhyw ddata amdanoch a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gadw am fwy na thair blynedd.

O dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), mae gennych hawliau fel unigolyn mewn perthynas â'r ffordd y caiff eich data personol ei gadw a'i brosesu. I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
e-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

Ymatebwch i Reolwr y Panel yn ysgrifenedig i'r cyfeiriad isod neu drwy e-bost i: Ryan.Davies@llyw.cymru

Ryan Davies
Rheolwr y Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth
Llywodraeth Cymru
Spa Road East
Llandrindod
Powys
LD1 5HA

**ATODIAD A**

**Prentis Blwyddyn 1**

Gweithiwr amaethyddol a gyflogir o dan brentisiaeth (cymhwyster Lefel 2 neu Lefel 3 neu gymhwyster cyfatebol), fel y'i diffinnir yn y ddeddfwriaeth hon sy'n bodoli eisoes, ac sy'n ymgymryd â blwyddyn gyntaf ei brentisiaeth.

**Prentis Blwyddyn 2**

Gweithiwr amaethyddol a gyflogir o dan brentisiaeth (cymhwyster Lefel 2 neu Lefel 3 neu gymhwyster cyfatebol), fel y'i diffinnir yn y ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes, ac sy'n ymgymryd ag ail flwyddyn ei brentisiaeth.

**Gweithiwr Datblygu Amaethyddol**
**Lefel A**

Gweithiwr amaethyddol â llai na 3 blynedd o brofiad ymarferol nad yw wedi cwblhau prentisiaeth (neu gymhwyster cyfatebol).

**Gweithiwr Amaethyddol**
**Lefel B**

Gweithiwr amaethyddol sy'n:

a) Darparu tystiolaeth ddogfennol i gyflogwr fod ganddo Gymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol ar Lefel 2 (neu gymhwyster cyfatebol) sy'n berthnasol i'w waith; neu'n
b) meddu ar o leiaf 3 blynedd o brofiad ymarferol yn y diwydiant fel Gweithiwr Datblygu Amaethyddol Lefel A

**Gweithiwr Amaethyddol Uwch**
**Lefel C**

Gweithiwr amaethyddol sy'n:

a) Darparu tystiolaeth ddogfennol i gyflogwr fod ganddo Gymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol ar Lefel 3 (neu gymhwyster cyfatebol) sy'n berthnasol i'w waith; neu'n
b) meddu ar o leiaf 2 flynedd o brofiad ymarferol yn y diwydiant fel Gweithiwr Amaethyddol Lefel B; neu'n
c) cael ei gyflogi fel arweinydd tîm.

**Uwch-weithiwr Amaethyddol**
**Lefel D**

Gweithiwr amaethyddol sy'n:

a) Darparu tystiolaeth ddogfennol i gyflogwr fod ganddo Gymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol ar Lefel 4, neu gymhwyster cyfatebol, sy'n berthnasol i'w waith; neu
b) sydd â chyfrifoldebau, gan gynnwys rhoi penderfyniadau rheolwyr ar waith yn annibynnol neu oruchwylio staff

**Rheolwr Amaethyddol**
**Lefel E**

Gweithiwr amaethyddol y mae'n ofynnol bod ganddo gyfrifoldeb rheoli, gan gynnwys cyflogi a rheoli staff lle y bo'n berthnasol ar gyfer daliad cyfan y cyflogwr neu ran o ddaliad y cyflogwr a gaiff ei rhedeg fel gweithrediad neu fusnes ar wahân.

**ATODIAD B**

**Cwestiynau**

1. **Ydych chi'n cytuno bod angen moderneiddio'r strwythur graddio presennol?**

2. **Ydych chi'n cytuno â'r strwythur graddio newydd a gynigir gan y Panel? (Mae diffiniad llawn o bob gradd yn Atodiad A)**

3. **Os nad ydych chi'n cytuno, a oes gennych unrhyw gynigion eraill y gallai'r Panel eu hystyried?**

4. **Bydd dileu Atodlenni 1, 2 a 3 o Orchymyn Cyflogau Amaethyddol presennol 2020 yn cael gwred ar y cymwysterau a'r hyfforddiant gorfodol penodol sydd eu hangen i symud ymlaen i bob gradd newydd gan gyflwyno yn eu lle gymwysterau galwedigaethol mwy cyffredinol. Ydych chi'n credu y bydd hyn yn caniatáu mwy o hyblygrwydd i symud ymlaen o fewn y strwythur graddio newydd?**

5. **Ydych chi'n cytuno â mesurau diogelu arfaethedig y Panel i atal gweithwyr rhag bod o dan anfantais yn sgil newid y strwythur graddio?**

6. **A ydych yn cytuno â'r cyfraddau a'r lwfansau arfaethedig ar gyfer yr isafswm cyflog?**

7. **Mae'r Lwfans Gwrthbwyso Llety wedi'i diweddaru i egluro'r darpariaethau yn y gorchymyn. Beth yw eich barn am y Lwfans Gwrthbwyso Llety ac a ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig?**

8. **Ydych chi'n cytuno â'r diffiniad o Weithiwr Amaethyddol dan Hyfforddiant a'r gyfradd gyflog arfaethedig a *argymhellir* ar gyfer Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol 2021?**

9. **Rhowch wybodaeth amdanoch chi neu eich sefydliad. Os oes modd, dylech gynnwys manylion am yr alwedigaeth neu'r sector yr ydych yn ymwneud ag ef, eich gweithlu os ydych yn gyflogwr (gan gynnwys nifer y gweithwyr Isafswm Cyflog Amaethyddol, eu graddau a'u cyfraddau), ac unrhyw beth arall sy'n berthnasol yn eich barn chi.**